Adda ac Efa yn anufudd, ac yn pechu

Genesis 3

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Genesis 3		
1	Yng nghanol Gardd Eden roedd dwy goeden arbennig. Dwedodd Duw wrth Adda: "Cei fwyta ffrwyth unrhyw goeden yn yr ardd, ond paid bwyta ffrwyth y goeden sy'n rhoi gwybodaeth am bopeth — da a drwg. Pan wnei di hynny byddi'n siŵr o farw."		
2	Dyma'r neidr (Satan), a oedd yn fwy cyfrwys na phob anifail gwyllt arall yn dweud wrth y wraig, "Ydy Duw wir wedi dweud, 'Peidiwch bwyta ffrwyth unrhyw goeden yn yr ardd'?"		
3	Atebodd y wraig, "Dim ond am ffrwyth y goeden yng nghanol yr ardd y dwedodd Duw, 'Peidiwch bwyta ei ffrwyth hi a peidiwch ei chyffwrdd hi, rhag i chi farw.'"		

4	Ond dyma'r neidr yn dweud wrth y wraig, “Na! Fyddwch chi ddim yn marw. Mae Duw yn gwybod y byddwch chi'n gweld popeth yn glir pan wnewch chi fwyta. Byddwch chi'n gwybod am bopeth — da a drwg — fel Duw ei hun.”	
5	Gwelodd y wraig fod ffrwyth y goeden yn edrych yn dda i'w fwyta. Roedd cael ei gwneud yn ddoeth yn apelio ati, felly dyma hi'n cymryd peth o'i ffrwyth ac yn ei fwyta. Yna rhoddodd beth i'w gŵr, oedd gyda hi, a dyma fe'n bwyta hefyd.	
6	Yn sydyn roedden nhw'n gweld popeth yn glir, ac yn sylweddoli eu bod nhw'n noeth. Felly dyma nhw'n rhwymo dail coeden ffigys wrth ei gilydd a gwneud sgertiau iddyn nhw'u hunain.	
7	Yna dyma nhw'n clywed sŵn yr ARGLWYDD Dduw yn mynd trwy'r ardd. A dyma'r dyn a'i wraig yn mynd i guddio o olwg yr ARGLWYDD Dduw, i ganol y coed. Ond galwodd yr ARGLWYDD ar y dyn, a gofyn iddo, “Ble rwyt ti?”	
8	Atebodd Adda, “Roeddwn i'n clywed dy sŵn di yn yr ardd, ac roedd arna i ofn am fy mod i'n noeth. Felly dyma fi'n cuddio.” “Pwy ddwedodd wrthot ti dy fod di'n noeth?” meddai Duw. “Wyt ti wedi bwyta ffrwyth y goeden ddywedais i wrthot ti am beidio ei fwyta?” Ac meddai'r dyn, “Y wraig rwyt ti wedi ei rhoi i mi — hi roddodd y ffrwyth i mi, a dyma fi'n ei fwyta.”	

9	Gofynnodd yr ARGLWYDD i'r wraig, “Be ti'n feddwl ti'n wneud?” A dyma hi'n ateb, “Y neidr wnaeth fy nhwyllo i. Dyna pam wnes i ei fwyta.” Dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth y neidr: “Melltith arnat ti am wneud hyn! Ti fydd yr unig anifail dof neu wyllt sydd wedi dy felltithio. Byddi'n llusgo o gwmpas ar dy fol ac yn llyfu'r llwch drwy dy fywyd. Byddi di a'r wraig yn elynion. Bydd dy had di a'i had hi bob amser yn elynion. Bydd e'n sathru dy ben di, a byddi di'n taro ei sawdl e.”	
10	A dyma Duw'n dweud wrth y wraig: “Bydd cael plant yn waith llawer anoddach i ti; byddi'n diodde poenau ofnadwy wrth eni plentyn. Byddi di eisiau dy ŵr, ond bydd e fel meistr arnat ti.”	
11	Wedyn dyma fe'n dweud wrth Adda: “Rwyt ti wedi gwrando ar dy wraig a bwyta ffrwyth y goeden roeddwn wedi dweud amdani, ‘Paid bwyta ei ffrwyth hi.’ Felly mae'r ddaear wedi ei melltithio o dy achos di. Bydd rhaid i ti weithio'n galed i gael bwyd bob amser. Bydd drain ac ysgall yn tyfu ar y tir, a byddi'n bwyta'r cnydau sy'n tyfu yn y caeau. Bydd rhaid i ti weithio'n galed a chwysu i gael bwyd i fyw, hyd nes i ti farw a mynd yn ôl i'r pridd. Dyna o lle y daethost ti. Pridd wyt ti, a byddi'n mynd yn ôl i'r pridd.”	

12	Dyma'r dyn yn rhoi'r enw Efa i'w wraig, am mai hi fyddai mam pob person byw. Wedyn dyma'r ARGLWYDD yn gwneud dillad o grwyn anifeiliaid i Adda a'i wraig eu gwisgo. A dyma'r ARGLWYDD yn dweud, “Mae dyn bellach yr un fath â ni, yn gwybod am bopeth — da a drwg. Rhaid peidio gadael iddo gymryd ffrwyth y goeden sy'n rhoi bywyd, neu bydd yn ei fwyta ac yn byw am byth.” Felly dyma'r ARGLWYDD yn ei anfon allan o'r ardd yn Eden i drin y pridd y cafodd ei wneud ohono. Pan gafodd y dyn ei daflu allan o'r ardd, gosododd Duw geriwbiaid a chleddyf tân yn chwyrlïo i rwystro unrhyw un rhag mynd at y goeden sy'n rhoi bywyd.	
13	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	Free Bible illustrations These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution Share-alike 3.0 unported licence. www.freebibleimages.org